Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 1221 (Cy. 292)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007 a Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013 drwy estyn y diffiniad o ragnodydd drwy fewnosod categori ychwanegol o ragnodydd annibynnol: radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol a thrwy estyn y diffiniad o ragnodydd atodol i gynnwys deietegwyr.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010 drwy estyn yr esemptiad i'r gofyniad i godi tâl am fagiau siopa untro.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1221 (Cy. 292)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016

*Gwnaed* — *14 Rhagfyr 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* — *19 Rhagfyr 2016*

*Yn dod i rym* — *9 Ionawr 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 47, 80, 83 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac adrannau 77 a 90 o Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008(**2**), a pharagraff 3 o Atodlen 6 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Radiograffydd Therapiwtig-Ragnodydd Annibynnol a Deietegydd-Ragnodydd Atodol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2016 a deuant i rym ar 9 Ionawr 2017.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Rheoliadau 2004" ("*the 2004 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(**1**) 2006 p. 42.
(**2**) 2008 p. 27.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2004(**1**);

ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Presgripsiynau am Ddim a Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2007(**2**);

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010(**3**); ac

ystyr "Rheoliadau 2013" ("*the 2013 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013(**4**).

**Diwygio Rheoliadau 2004**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau 2004 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

""the Health and Care Professions Council register" means the register established and maintained by the Health and Care Professions Council under article 5 of the Health and Social Work Professions Order 2001(**5**);";

""registered radiographer" means a person registered in Part 11 of the Health and Care Professions Council register;";

""therapeutic radiographer independent prescriber" means a person —

(a) who is a registered radiographer; and

(b) against whose name is recorded in the relevant register

(i) an entitlement to use the title "therapeutic radiographer"; and

(ii) an annotation signifying that he or she is qualified to order drugs, medicines and appliances as a therapeutic radiographer independent prescriber;".

(3) Yn rheoliad 2(1) —

(a) yn y diffiniad o "prescriber"—

(i) yn is-baragraff (f) hepgorer "and";

(**1**) O.S. 2004/478 (Cy. 48). Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2007/205 (Cy. 19) ac O.S. 2014/2291 (Cy. 226).
(**2**) O.S. 2007/121 (Cy. 11). Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2014/2291 (Cy. 226).
(**3**) O.S. 2010/2880 (Cy. 238). Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2014/2291 (Cy. 226).
(**4**) O.S. 2013/898 (Cy. 102). Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2014/2291 (Cy. 226).
(**5**) O.S. 2002/254.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(ii) yn is-baragraff (g) ar ôl "prescriber;" mewnosoder "and";

(iii) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"(h) a therapeutic radiographer independent prescriber,";

(b) yn y diffiniad o "supplementary prescriber" ar ôl is-baragraff (b)(iv)(cc) mewnosoder —

"(dd) dietitians, or"; ac

(c) yn y diffiniad o "relevant register" ar ôl is-baragraff (c)(i) mewnosoder —

"(ia) dietitians;".

(4) Ym mharagraff 49(3) a (4) o Atodlen 6 (telerau sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau gweinyddu) ar ôl "chiropodist independent prescriber" ym mhob lle y mae'n digwydd mewnosoder ", a therapeutic radiographer independent prescriber".

(5) Ym mharagraff 64(1) a (2) o Atodlen 6 (sy'n ymwneud â nyrsys sy'n rhagnodi'n annibynnol, nyrsys-ragnodwyr annibynnol, fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, ffisiotherapyddion-ragnodwyr annibynnol, podiatryddion-ragnodwyr neu giropodyddion-ragnodwyr annibynnol a rhagnodwyr atodol) ar ôl "chiropodist independent prescriber" ym mhob lle y mae'n digwydd mewnosoder ", a therapeutic radiographer independent prescriber".

(6) Ym mhennawd paragraff 64 o Atodlen 6, ar ôl "chiropodist independent prescriber" mewnosoder ", therapeutic radiographer independent prescriber".

**Diwygio Rheoliadau 2007**

**4.**—(1) Mae Rheoliadau 2007 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

"ystyr "cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" ("*the Health and Care Professions Council register*") yw'r gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001;";

"ystyr "radiograffydd cofrestredig" ("*registered radiographer*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;";

"ystyr "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol" ("*therapeutic radiographer independent prescriber*") yw person—

(a) sy'n radiograffydd cofrestredig, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn y gofrestr berthnasol—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(i) hawl i ddefnyddio’r teitl “radiograffydd therapiwtig”; a

(ii) nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol;”.

(3) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o “rhagnodydd” (“*prescriber*”)—

(i) yn is-baragraff (dd) hepgorer “ac”;

(ii) yn is-baragraff (e) yn lle “rhagnodydd annibynnol.” mewnosoder “rhagnodydd annibynnol; ac”;

(iii) ar ôl is-baragraff (e) mewnosoder—

“(h) radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol,”;

(b) yn y diffiniad o “cofrestr berthnasol” (“*relevant register*”) ar ôl is-baragraff (c)(i) mewnosoder—

“(ia) deietegwyr;”;

(c) yn y diffiniad o “rhagnodydd atodol” (“*supplementary prescriber*”)—

(i) ar ôl “diagnostig neu therapiwtig,”, hepgorer “neu”; a

(ii) ar ôl is-baragraff (a)(iv)(cc) mewnosoder—

“(chch) deietegwyr, neu”.

**Diwygio Rheoliadau 2010**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau 2010 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 1(2)(a) o Atodlen 1 (Esemptiadau), ar ôl “podiatrydd-ragnodydd neu giropodydd-ragnodydd annibynnol” mewnosoder “, radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol”.

(3) Ym mharagraff 1(3) o Atodlen 1 yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

“mae i “radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol” (“*therapeutic radiographer independent prescriber*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2013;”

**Diwygio Rheoliadau 2013**

**6.**—(1) Mae Rheoliadau 2013 wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 2(1), yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"ystyr "cofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal" ("*the Health and Care Professions Council register*") yw'r gofrestr a sefydlir ac a gynhelir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal o dan erthygl 5 o Orchymyn Proffesiynau Iechyd a Gwaith Cymdeithasol 2001;";

"ystyr "radiograffydd cofrestredig" ("*registered radiographer*") yw person sydd wedi ei gofrestru yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;";

"ystyr "radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol" ("*therapeutic radiographer independent prescriber*") yw person—

(a) sy'n radiograffydd cofrestredig, a

(b) y cofnodir yn erbyn ei enw yn Rhan 11 o gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal —

(i) hawl i ddefnyddio'r teitl "radiograffydd therapiwtig"; a

(ii) nodyn yn dynodi ei fod yn gymwys i archebu cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar fel radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol;".

(3) Yn rheoliad 2(1) —

(a) yn y diffiniad o "rhagnodydd" ("*prescriber*") ar ôl "ciropodydd-ragnodydd annibynnol" mewnosoder ", radiograffydd therapiwtig-ragnodydd annibynnol"; a

(b) yn is-baragraff (c)(i) o ddiffiniad "rhagnodydd atodol" ("*supplementary prescriber*") ar ôl "chiropodyddion a phodiatryddion," mewnosoder " deietegwyr,".

*Vaughan Gething*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru.
14 Rhagfyr 2016